

Dyddiad cyhoeddi: 23 Mawrth 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

“Alla i ofyn am eich gwariant ar Gontractwyr TG ar gyfer 2020 a'r asiantaethau/ymgyngoriaethau rydych chi wedi eu cyflogi a'r fframweithiau rydych chi wedi'u defnyddio (os o gwbl).

A wnewch chi hefyd gadarnhau faint o Gontractwyr TG rydych chi'n gweithio gyda nhw ar hyn o bryd.

A wnewch chi ag anfon eich Siart Trefniadaeth TG cyfredol ataf hefyd.”

Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:


Nid yw TrC yn cyflogi contractwyr TG unigol a enwir. Yn hytrach, ein proses ni yw penodi cwmni i gwblhau tasg neu ddarparu gwasanaeth, ac mae'r nifer yr aelodau o staff y mae'r cwmni hwnnw wedyn yn ymrwymo i'r gwaith yn cael ei adael yn ôl eu disgrisiwn. Ar hyn o bryd mae TrC yn cyflogi'r chwe chwmni TG canlynol:

Cyfarwyddiaeth	Contractwr:	Darparu gwasanaethau	Llwybr Caffael	Gwariant yn 2020
Gwasanaethau Corfforaethol ac Ymgynghori - TG	Net Support UK	Cymorth a Gosod TG Cyffredinol	Contract blaenorol (mae'r gofynion ail-gaffael cyfredol yn cael eu hadolygu)	£130,000
Cyllid	SA Global	Partner Cymorth a Ffurfweddu MS Dynamics	G-Cloud	£242,000
Gwasanaethau Corfforaethol ac Ymgynghori - TG	Red Cortex	Cymorth TG Arbenigol	DOS	£840,000
Pobl a Sefydliad	MHR International UK Ltd	System Adnoddau Dynol (porth ar y we i staff)	G-Cloud	£100,382
Gweithrediadau Rheilffyrdd	ECR	System Rheoli Stoc Arlwyo	Cais Ymadael Masnachol (trosglwyddo swyddogaeth arlwyo o Wasanaethau Rheilffyrdd TrC Keolis Amey i TrC)	£99,728



Gwasanaethau Corfforaethol ac Ymgynghori – Gogledd Cymru	ViaVan	Ateb Bws Fflecsi	Cais Ymadael Masnachol	£100,377
---	---------------	-------------------------	-------------------------------	-----------------

Dyma ein siart trefniadaeth TG cyfredol:



Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gvhoeddus".